

# Adolygiad Ysgolion Ardal

---

Ymgynghoriad ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Queensferry o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2014 ymlaen, er mwyn galluogi ymgorffori darpariaeth feithrin.

Ymgynghoriad ysgrifenedig yw hwn ac mae'r llyfryn yn cynnwys cyfarwyddyd ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad.

## Beth ydym yn ceisio ei gyflawni?

Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth feithrin ar gael yn Ysgol Gynradd Queensferry nac yn Ysgol St. Ethelwold's - sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol..

Cynigir darpariaeth feithrin ar hyn o bryd gan Ysgol Feithrin Croft, sef yr unig feithrinfa annibynnol yn Sir y Fflint. Mae'r trefniant hwn yn darparu'r gwasanaeth meithrin sydd fel arfer wedi'i gynnwys fel rhan o drefn Ysgol Gynradd. Er bod y ddarpariaeth hon o safon uchel, ac er bod rhieni yn gefnogol iawn i feithrinfa, mae cyflwyno'r cyfnod sylfaen o addysg wedi arwain at yr angen i ddarparu agwedd fwy integredig o fewn addysg y plant ieuengaf.

Yn 2012, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori yn Ysgol Uwchradd John Summers yng Nghei Connah a Chanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Pwrpas yr ymgynghoriadau hynny oedd rhoi'r cynnig gerbron i sefydlu ysgol newydd gydag ystod oedran rhwng 3 a 16 ar safle presennol John Summers, a chynnwys darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol St. Ethelwold's sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol

Gan fod y cyfnod sylfaen bellach wedi'i sefydlu ac yn disodli Cyfnod Allweddol Un, byddai darparu ar gyfer y plant mewn Ysgol Gynradd yn arwain at drosglwyddo gwell o un cyfnod i'r llall trwy ddileu'r newid o un ysgol i'r llall. Mae'n wybyddus bod plant ar eu hennill yn addysgiadol os bydd cyn lleied ag sydd bosibl o drosglwyddo wrth iddynt symud o un cyfnod i'r llall.

Oherwydd hynny, rydym yn ceisio sefydlu'r un cyfleoedd dilyniant yn Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol St. Ethelwold's - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol - ag sydd ar gael i blant eraill ledled y Sir.

Cafodd nifer o ymgynghoriadau eu cynnal o fewn y gymuned fel y gallai pobl ystyried nifer o ddewisiadau a roddwyd gerbron gyda'r nod o leihau nifer y lleoedd gweigion yn Ysgol Uwchradd John Summers, gwella hyfywdra darpariaeth chweched dosbarth, a sefydlu darpariaeth feithrin o fewn dwy ysgol gynradd yn yr ardal. Yn dilyn yr ymgynghoriadau hyn, cyhoeddwyd cynnig i gau Ysgol Feithrin Croft ac ad-drefnu'r ddarpariaeth a sefydlu ysgol newydd i ddisgyblion 3-16 oed a fyddai'n disodli Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers. Cafodd y ddau gynnig hyn eu cyfeirio at Weinidogion Llywodraeth Cymru i benderfynu arnynt.

Cafodd cynnig eisoes ei gyhoeddi ar gyfer newid ystod oedran yn Ysgol St. Ethelwold's - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol ac mae'r cynnig hwn yn aros am benderfyniad y Gweinidog yn y Cynulliad. Hyd yma, ni chyhoeddwyd unrhyw gynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Queensferry.

## Ar beth yr ydym yn ymgynghori gyda chi?

### ***‘Newid yr ystod oed yn Ysgol Gynradd Queensferry o’r 4-11 oed presennol i 3-11 oed o fis Medi 2014 ymlaen’.***

Nid yw hyn yn effeithio ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers o fis Medi 2016 ymlaen. Yr hyn y mae’n ei olygu yw y bydd, o fis Medi 2014 hyd at yr amser y bydd Queensferry yn dod yn rhan o ysgol i ddisgyblion 3-16 oed ar safle John Summers, yn gallu darparu lleoedd i ddisgyblion meithrin a fyddai fel arall yn mynychu Ysgol Feithrin Croft.

***Darpariaeth 3 - 16 ar safle John Summers*** - Un ysgol ‘newydd’ ar gyfer myfyrwyr 3 i 16 oed. Gan ddilyn patrwm sydd eisoes wedi’i sefydlu yn llwyddiannus yn Lloegr ac sydd yn awr yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, byddai’r drefn newydd yn cynnig dilyniant esmwyth o’r meithrin, drwodd i’r cynradd ac o’r cynradd drwodd i addysg uwchradd. Er bod yn rhaid gwneud ceisiadau ar wahân am leoedd mewn dosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd, mae profiad wedi dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu trosglwyddo o’r dosbarth meithrin i’r dosbarth derbyn yn yr un ysgol.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Gynradd St. Ethelwold’s fel ei gilydd yn ansicr o’r niferoedd fydd yn trosglwyddo i’r dosbarthiadau derbyn. Os bydd y dosbarth meithrin wedi’i leoli yn yr ysgol, bydd gan yr ysgol fwy o sicrwydd pa niferoedd sydd yn debygol o gychwyn yn y dosbarth derbyn, ac o ganlyniad yn gallu gwneud gwell trefniadau ar gyfer y newydd ddyfodiaid.

Yn yr ymgynghoriadau cychwynnol a gynhaliwyd yn 2012, cyflwynwyd cynigion eraill hefyd. Yn eu mysg roedd cynnig i uno ysgolion Uwchradd Connah’s Quay gydag Ysgol Uwchradd John Summers neu ffedereiddio’r ysgolion. Penderfynwyd nad oedd y cynigion hyn yn ymarferol i’w gweithredu na hefyd yn gost effeithiol, a hefyd roedd yr ymateb iddynt ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar y cyfan yn negyddol.

### ***Darpariaeth feithrin*** – effaith y newid arfaethedig:

Ar hyn o bryd, nid oes gan Ysgolion Cynradd Queensferry a St. Ethelwold’s ddosbarth meithrin fel rhan o’r ysgol. Darperir addysg feithrin ar gyfer yr ardal hon ar hyn o bryd ym Meithrinfa Croft.

Bydd newid addysg feithrin trwy ei gynnwys o fewn yr ysgol gynradd yn caniatáu i blant ifanc yr ardal symud yn esmwyth o addysg meithrin i addysg cyfnod sylfaen, fel ym mhob ysgol gynradd arall yn Sir y Fflint. Bydd hyn yn cynyddu ystod y ddarpariaeth feithrin ym Meithrinfa Croft ac yn ei gwneud yn bosibl iddynt dderbyn cefnogaeth fwy helaeth gan fentrau fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau’n Deg.

Byddai ysgol Gynradd Queensferry – sydd wedi'i lleoli ar yr un campws ag ysgol Uwchradd John Summers – yn cael ei datblygu i dderbyn plant oed meithrin o fewn ei hadeilad presennol ei hun hyd nes y bydd yn dod yn rhan o'r ysgol 3-16, ym mis Medi 2016.

Byddai Ysgol Gynradd St Ethelwold's hefyd yn cael ei datblygu fel ei bod yn derbyn plant oed meithrin yn ei hadeilad presennol o fis Medi 2014 ymlaen.

Mae'r gwaith sydd ei angen er mwyn addasu Ysgol Gynradd Queensferry yn golygu aildrefnu'r dosbarthiadau mewnol a darparu offer chwarae ar gyfer y tu allan. Mae'r arian ar gyfer hyn wedi'i glustnodi allan o adnoddau cyfalaf y Cyngor.

Byddai'r cynnig sydd eisoes o dan ystyriaeth gan y Gweinidogion yn y Cynulliad yn golygu cau Meithrinfa Croft o fis Medi 2014 ymlaen, a symud y disgyblion unai i Ysgol Gynradd Queensferry neu i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Ethelwold's, yn unol â dymuniad y rhieni. Byddai Menter Teuluoedd yn Gyntaf, sydd yn cefnogi teuluoedd ifanc yn yr ardal, yn cael ei ehangu ac yn ymgartrefu yn adeilad presennol Meithrinfa Croft. Ni fyddai unrhyw ddarpariaeth cyfnod sylfaen arall yn yr ardal yn newid o gwbl.

Y bwriad yw uno Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Medi 2016, gan greu un ysgol 'newydd' yn darparu ar gyfer disgyblion o 3 oed hyd at 16. Byddai gan yr ysgol hon un prifathro ac un corf llywodraethol. Mae'r cynnig yn aros am benderfyniad gan Weinidogion y Llywodraeth.

Mae'r risgiau sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn yn cynnwys penderfyniad yn erbyn y cynnig arfaethedig am ysgol 3 - 16 gan y Gweinidogion, methu â chwblhau'r addasiadau unai o ganlyniad i'r oedi cyn derbyn penderfyniad neu anallu'r contractwyr i gwblhau'r gwaith mewn pryd ar gyfer agor yr ysgol newydd.

Er mwyn ymateb i'r risgiau hyn, mae'r Cyngor yn symud ymlaen cyn gynted ag sydd bosibl gyda'r broses o lunio penderfyniadau, ac yn achos risgiau o safbwynt cwblhau'r gwaith, yn gosod amodau cwblhau gyda chosb i'r contractwr sydd yn methu â chwblhau'r gwaith y cytunwyd arno ar amser.

Enwau, lleoliadau a chategoriâu ysgolion sydd yn debygol o gael eu heffeithio gan y newid a fwriedir i ystod oed Ysgol Gynradd Queensferry er mwyn cynnwys meithrinfa o fis Medi 2014 ymlaen.

Ysgol Gynradd Gymunedol Queensferry,  
Campws Queensferry  
Chester Road West,  
Queensferry, Glannau Dyfrdwy,  
Sir y Fflint CH1 1SE

Ysgol Feithrin Croft,  
Larch Avenue,  
Aston,  
Glannau Dyfrdwy,  
Sir y Fflint CH5 1NF

Ysgol St. Ethelwold's – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyr yn  
Wirfoddol,

Melrose Avenue,  
Shotton,  
Glannau Dyfrdwy,  
Sir y Fflint CH5 1NG

Ysgol Babanod Shotton,\*  
Plymouth Street,  
Shotton,  
Glannau Dyfrdwy,  
Sir y Fflint CH5 1JD


Ysgolion cyfrwng Saesneg yw'r ysgolion hyn i gyd.

\* Ym mis Medi 2014, bydd yr ysgol hon yn uno gydag Ysgol Iau Taliesin i ffurfio ysgol Gynradd newydd.

	<b>Niferoedd ar y gofrestr</b>									
<b>Ysgol</b>	<b>2009/10</b>	<b>2010/11</b>	<b>2011/12</b>	<b>2012/13</b>	<b>2013/14</b>	<b>2014/15</b>	<b>2015/16</b>	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>	<b>2018/19</b>
Cynradd Queensferry	136	119	123	143	160	156	158	156	162	164
Meithrinfa Croft	38	38	33	40	43	39	36	36	36	36
St Ethelwold's	76	67	80	83	91	101	101	103	111	108
Babanod Shotton	125	126	128	147	163	178	168	163	155	152

<b>Ysgol</b>	<b>Nifer ar y gofrestr (Medi 2013)</b>	<b>Capasiti</b>	<b>Nifer o Leoedd Meithrin</b>	<b>Cyflwr</b>	<b>Cyfrwng Iaith</b>
Cynradd Queensferry	160	180	0	A	Cyfrwng Saesneg
Meithrinfa Croft	43	65	43	B	Cyfrwng Saesneg
St. Ethelwold's	91	107	0	C	Cyfrwng Saesneg
Babanod Shotton	163	163	23	B	Cyfrwng Saesneg

## Beth yw'r camau ar gyfer ymgynghori, a pha mor hir yw'r broses?



## Ansawdd a Safonau addysg

### Arolygon Estyn

Mae arolygon diweddaraf Estyn ar gyfer for Ysgol Gynradd Queensferry (YGQ), Ysgol Feithrin Croft (Croft) ac Ysgol Babanod Shotton (YBS) wedi'u seilio ar fframwaith hŷn na'r fframwaith bresennol ac yn ffurfio barn yn unol â 7 cwestiwn allweddol.

Yn yr adroddiadau hyn, defnyddir graddfa bum pwynt i arddangos y casgliadau fel a ganlyn:

**Gradd 1** da gyda nodweddion rhagorol

**Grade 2** nodweddion da a dim diffygion o bwys

**Grade 3** nodweddion da yn gorbwyso diffygion

**Grade 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd o bwys

**Grade 5** llawer o ddiffygion o bwys

Cwestiwn Allweddol	Y G Q	Croft	Y B S
1 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni ?	2	2	3
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2	2	3
3 pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau'r dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2	3	2
4 Pa mor dda y mae'r ysgol yn gofalu am y dysgwyr, yn eu harwain ac yn eu cefnogi?	1	2	2
5 Pa mor effeithlon yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2	3	2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau?	2	3	3
7 Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2	2	3



Caiff canfyddiadau arolwg ddiweddaraf Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a gynorthwyr yn wirfoddol) St. Ethelwold's eu harddangos yn unol â'r fframwaith ddiweddaraf sef tri Chwestiwn Allweddol:

Arolygiad Estyn yn Chwefror 2012

Canlyniad yn y tri Chwestiwn Allweddol:

1. Deilliannau (safonau a lles) – digonol
2. Darpariaeth (profiad dysgu, profiad addysgu, gofal a chefnogaeth, arweiniad a phrofiad dysgu) – digonol
3. Arweinyddiaeth a rheolaeth, (gwelliant mewn ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau) – digonol

Effaith tebygol y cynnig i gynnwys meithrinfa yn Ysgol Gynradd Queensferry ar ansawdd Cwestiwn Allweddol Estyn yn ymwneud â deilliannau fyddai gwella'r profiad dysgu a darparu cyfnod sylfaen mwy cydlynol i ddysgwyr ifanc. Byddai hyn yn digwydd oherwydd dileu un cam o'r trosglwyddo o'r cyfnod meithrin i'r cyfnod derbyn, gyda dilyniant staffio a throsglwyddo data dysgwyr unigol, yn enwedig o safbwynt yr addysg, y gofal a'r gefnogaeth i ddisgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol..

Byddai'r dull integredig hwn nid yn unig o gymorth wrth gyflwyno'r cyfnod Sylfaen, ond hefyd yn sicrhau parhad yn yr arweinyddiaeth unigol ar gyfer plant oedran 3-11, ac yn rhoi cyfleoedd dysgu yn yr oed yma mewn un ysgol gynradd fel sydd ar gael yn holl ysgolion cynradd eraill Sir y Fflint. Yn ogystal byddai sicrwydd o ofal ac arweiniad cyson ar gyfer y disgyblion. Byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith bositif ar y plant o safbwynt profiadau dysgu.

Byddai darpariaeth integredig hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol yn gyffredinol - un Pennaeth, un ethos a defnyddio holl sgiliau arbenigol ystod eang o staff.



## Cyllid

Er mwyn uwchraddio'r adnoddau yn Ysgol Gynradd Queensferry i gynnwys meithrinfa, mae angen buddsoddiad o £98,000, sydd wedi'i glustnodi allan o gyllideb cyfalaf y Cyngor. Mae'r gwaith sydd ei angen wedi'i amserlennu ar gyfer gwyliau'r haf fel y bydd yr ysgol yn barod ar gyfer dechrau'r tymor newydd ym mis Medi 2014.

Caiff unrhyw arbediad a wneir trwy gau Ysgol Feithrin Croft ei drosglwyddo i gyllideb yr ysgol. Os mai penderfyniad Llywodraeth Cymru fydd cau Ysgol Feithrin Croft, y bwriad yw i ddarpariaeth Cychwyn Cadarn newydd symud i mewn i'r adeilad gwag. Bydd hyn yn gwneud arbed cyllideb addysg rhag gorfod ysgwyddo'r gôst o adnewyddu a chynnal yr adeilad. Felly ni fydd yn rhaid gwerthu'r adeilad na'r tir yn sgil y bwriad arfaethedig hwn i newid yr ystod oedran. Hefyd disgwylir y bydd unedau mwy yn gwneud defnydd llawer mwy effeithlon o adnoddau ariannol.

Cost fesul disgybl am flwyddyn (allan o adran 52 o gyllideb y Cyngor 2012/13)

<b>Ysgol</b>	<b>Cost fesul disgybl</b>
Ysgol Babanod Shotton	£4,631
St. Ethelwold's	£4,028
Cynradd Queensferry	£3,692
Ysgol Feithrin Croft	£5,800
Cyfartaledd Sir y Fflint	£3,567

Gallwch adael i ni wybod eich barn drwy nifer o wahanol ffyrdd, sef:

- Cwblhau holiadur ar-lein yn:  
[www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview](http://www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview)
- Cwblhau holiadur a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion yn y cyfeiriad isod
- e-bostio unrhyw gwestiynau sydd gennych i'r tîm moderneiddio i:  
21CenturySchools@flintshire.gov.uk
- Neu, anfonwch eich ymatebion ysgrifenedig at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6DN

**Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar ddydd Llun, 10fed Mawrth 2014.**

Byddwch cystal â nodi na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig sef gostwng yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Queensferry. Bydd cyfle i fynegi gwrthwynebiad os a phan gaiff rhybudd statudol ei gyhoeddi.



**Rhestr o'r ymgynghorai:**

Coleg Cambria

Catrin Jones, Llywodraeth Cymru

Carl Sargeant AC

David Hanson AS

Y Prif Arolygydd, ESTYN

NASUWT, NUT, ATL, GMB, UNITE, UNISON, NAHT, FTJNC, UCAC, ASCL

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Cyngor Cymuned Queensferry

Prif Weithredwr Cyngor Iechyd Cymunedol Betsi Cadwaladr

Neal Cockerton, Cludiant, Cyngor Sir y Fflint

Huw Foster-Evans, Prif Swyddog, GwE

Cymunedau yn Gyntaf Cefngwlad Gogledd Sir y Fflint

Cyfarwyddwr Addysg Sir Ddinbych

Cyfarwyddwr Addysg Sir Bwrdeistref Wreccsam

Cyfarwyddwr Addysg Yr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru

Cyfarwyddwr Addysg Yr Esgobaeth Catholig Wreccsam

Bwrdd Llywodraethol yn: -

Ysgol Gynradd Queensferry

Ysgol Cynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Ethelwold's

Ysgol Babanod Shotton

Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry, Glannau Dyfrdwy

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Arolwg o Ysgolion yr Ardal

Cyn i chi gychwyn - pe baech yn hoffi cwblhau'r ffurflen hon ar-lein, ewch i:  
[www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview](http://www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview)

### Neu gallwch ddychwelyd y ffurflen i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint,

Ar sail y wybodaeth a gawsoch yn y llyfryn hwn, byddwch cystal â rhoi eich barn ar gynnig y Cyngor. Os oes gennych awgrym arall heblaw gostwng yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Queensferry, nodwch hynny isod.

### Pa mor gryf ydych yn cytuno gyda'r cynnig i ostwng yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Queensferry o 4-11 i 3-11 er mwyn cynnwys dosbarth meithrin yn yr ysgol?

- Cytuno'n gryf                       Tueddu i gytuno                       Dim yn cytuno nac yn anghytuno  
 Tueddu i anghytuno                       Anghytuno'n gryf

### Dywedwch wrthym pam eich bod y teimlo fel hyn a nodwch unrhyw awgrym gwahanol yr hoffech ei gynnig fel y gallwn ei ystyried

---



---



---

### Amdanoch chi:

Er mwyn ein helpu i ddeall beth mae gwahanol grwpiau o bobl yn ei feddwl, dywedwch ychydig amdanoch eich hun:

Rhowch eich manylion cyswllt isod (*yn anffodus, ni allwn roi ystyriaeth i ymatebion oni bai bod manylion cyswllt, gan gynnwys y cod post llawn, wedi'u cynnwys*)

Enw: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad:

---

Côd Post: \_\_\_\_\_

### Beth ydych chi:

- Rhiant/Gofalwr                       Athro/Athrawes                       Staff Cymorth  
 Llywodraethwr                       Arall

### Enw'r ysgol yr ydych yn gysylltiedig â hi

---

Ticiwch y blwch pe baech yn hoffi derbyn manylion yr adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad